Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Llongyfarchiadau..

PYSGODFA FRITHYLL CWM DÂR



12 Diwrnod y Nadolig 2023
Enillydd 7

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

PYSGODFA FRITHYLL CWM DÂR

A hithau wedi'i lleoli yn nhirwedd syfrdanol Parc Gwledig Cwm Dâr, mae Pysgodfa Frithyll Cwm Dâr yn baradwys i bysgotwyr! Mae'r gronfa ddŵr dawel tair erw wedi'i thrawsnewid yn llyn pysgota brithyllod llewyrchus. Mae'n gynefin naturiol ardderchog ar gyfer brithyllod seithliw, brithyllod, a brithyllod glas, gyda meintiau'n amrywio o 3 phwys hyd at 20 pwys a mwy.

Yn awyddus i warchod harddwch naturiol a hyrwyddo bywyd gwyllt lleol, maen nhw'n creu ynysoedd yn y llyn sy’n gyfeillgar i fywyd gwyllt, a fydd yn annog amrywiaeth o adar a bywyd gwyllt, gan gyfrannu at fioamrywiaeth fywiog y parc. Yn y dyfodol, maen nhw'n bwriadu cynnig cyfleoedd pysgota â phlu i ddisgyblion ysgolion lleol. Maen nhw hefyd yn gobeithio derbyn cyllid i osod platfform pysgota i bobl anabl.